mencap Cymru

Y Comisiwn Etholiadol

hawdd ei ddarllen




# Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio

Mae'r adran yma yn esbonio sut rydych yn pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio.

# Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio




Mae'r adran yma yn esbonio sut rydych yn pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio.

Bydd yr adran yma yn esbonio sut i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio.

Byddwch chi'n cael gwybod am y canlynol:

1. Beth i'w ddisgwyl mewn gorsaf bleidleisio

2. I bwy y gallwch ofyn am help




Pan fyddwch chi wedi cofrestru i bleidleisio, gallwch chi bleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio.

Cyn etholiad, bydd cerdyn pleidleisio yn cael ei anfon atoch chi.




Bydd y cerdyn yma yn dweud wrthych chi ble mae eich gorsaf bleidleisio a ble mae angen i chi fynd i bleidleisio.

Yn aml, mae eglwysi, canolfannau cymunedol ac ysgolion yn cael eu defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio. Ond gallan nhw fod mewn pob math o leoedd gwahanol.

Gwybodaeth gyswllt
e-bost: **helpline.wales@mencap.org.uk**
ffôn: **0808 8000 300**

# Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio




Bydd y gorsafoedd pleidleisio ar agor rhwng 7am a 10pm ddydd Iau 5 Mai.

Gall fod yn ddefnyddiol i chi fynd â'ch cerdyn pleidleisio gyda chi i bleidleisio.




Pan fyddwch chi'n cyrraedd gorsaf bleidleisio, bydd angen i chi roi eich enw a'ch cyfeiriad.



Os nad ydych chi'n siŵr beth i'w wneud pan fyddwch chi'n cyrraedd yr orsaf bleidleisio, gofynnwch i'r staff yno. Maen nhw yno i'ch helpu.

Gallwch chi hefyd ofyn i rywun fynd gyda chi i'r orsaf bleidleisio i'ch helpu chi. Rhaid i'r person fod wedi cofrestru i bleidleisio yn yr etholiad rydych chi'n pleidleisio ynddo. Er enghraifft, aelod o'r teulu neu weithiwr cymorth.

Gall y person hwn eich helpu chi i lenwi eich papur pleidleisio hefyd. Os dewiswch wneud hyn, bydd angen i chi roi gwybod i staff yr orsaf bleidleisio a bydd angen i'r person sy'n eich helpu lenwi ffurflen.

Os nad oes unrhyw un gyda chi a bod angen help arnoch chi i lenwi eich papur pleidleisio, gall staff yr orsaf bleidleisio eich helpu chi.


Gwybodaeth gyswllt
e-bost: **helpline.wales@mencap.org.uk**
ffôn: **0808 8000 300**

# Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio

Angen help? Mae rhagor o wybodaeth am bleidleisio ar gael ar wefan Mencap: www.mencap.org.uk/get-involved/campaigning/guides-voting



Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr etholiad, gallwch ffonio llinell gymorth Mencap ar 0808 8000 300.

Gwybodaeth gyswllt
e-bost: **helpline.wales@mencap.org.uk**
ffôn: **0808 8000 300**

mencap Cymru

Y Comisiwn Etholiadol

Gwybodaeth Cyswllt
e-bost: **helpline.wales@mencap.org.uk**
ffôn: **0808 8000 300**